# Datblygiad rhyfela

Rhyfel – mae'n greadur cymhleth, sy'n pontio recriwtio milwyr, tactegau milwrol, arfau a mwy.

Mae'n amhosib pwyntio bys at un achos penodol sy'n arwain at ryfel, ond mae modd edrych ar rai o'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar wrthdaro ar hyd y canrifoedd.

Weithiau, yn y Canol Oesoedd, byddai Gwyr y Brenin yn recriwtio milwyr o buteindai a thafarndai a'u gorfodi i ymladd.

Yn ddiweddarach, roedd rhai dynion yn derbyn hyfforddiant gan ffurfio milisia answyddogol. Ond erbyn yr 17eg ganrif, roedd y rhan fwya' o filwyr yn cael eu talu.

Yn dilyn llwyddiant Byddin Model Newydd Cromwell adeg y Rhyfel Cartref, aeth y Brenin Siarl II ati yn yr 1660au i greu byddin broffesiynol.

Yn y 18fed a'r 19eg ganrif, cyn consgriptiwn, roedd rheolwyr yn aml yn herwgipio pobl i ymladd yn y fyddin a'r llynges. 'Gorfodaeth' oedd hyn.

Ond wrth i ryfela gynyddu, tyfu wnaeth y galw am ddynion hefyd.

Cyflwynwyd consgriptiwn yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd posteri propaganda'r Llywodraeth yn rhoi pwysau ar ddynion i ymuno. Carcharwyd y rhai a wrthododd.

Ail gyflwynwyd consgripsiwn ar gyfer yr Ail Ryfel Byd, ond daeth i ben yn fuan wedi'r rhyfel orffen.

Mae tactegau milwrol hefyd wedi newid yn eithradol.

Yn y Canol Oesoedd, wrth ymosod ar gadarnleoedd eu gwrthwynebwyr, roedd byddinoedd yn aml yn defnyddio tactegau gwarchae, catapwltio cyrff marw, llawn afiechyd dros waliau, gwenwyno'r dŵr a thorri'r cyflenwad bwyd.

Yn ddiweddarach, roedd picellwyr, gyda'u gwaewffyn arbennig yn effeithiol iawn yn erbyn ceffylau. Dros amser, daeth mysgewyr yn eu lle a reifflwyr yn lle hwythau.

Erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd y dacteg o balu ffosydd yn creu meysydd brwydr llonydd a diddatrys. Ar y llaw arall, rhyfel diarbed oedd yr Ail Ryfel Byd. Defnyddwyd awyrennau, cychod, milwyr traed a bomiau. Roedd pobman yn darged.

Un o'r prif ffactorau sydd wedi dylanwadu ar ryfela yw technoleg.


© Hawlfraint BBC

Yn y 14eg ganrif, wnaeth bŵau hir chwyldroi rhyfela, nes i fysgedai ymddangos. Roedd mysgedau'n boblogaidd gyda milwyr tan y 18fed ganrif.

Datblygwyd gynnau peiriant yn yr 1860au. Erbyn yr 1880au, roedd gynnau mawr fel y 'gwn anferthol' yn bodoli – bwystfil o beth.

Gwelwyd effaith technoleg ar ei fwya dinistriol pan ollyngodd America fom atomig ar Japan yn 1945, gan ladd hyd at chwarter miliwn o bobl.

Heddiw mae drônau cyfrifiadurol yn targedu'n fanylach nag erioed.

Mae balchder cenedlaethol wedi dylanwadu ar ryfela. Cychwynnodd llynges enwog Prydain yn sgil dyhead Harri VIII i arfogi llongau ar gyfer rhyfel. Erbyn 1540, roedd llongau'n fawr ac yn llawn arfau.

Adeiladodd Elisabeth I ar yr etifeddiaeth yma gyda'r llynges bwerus a drechodd Armada Sbaen.

Erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf, Prydain oedd â'r llynges fwya' yn y byd.

Beth am rôl menywod adeg rhyfela?

Yn y 12fed ganrif roedd rhai o wragedd uchelwyr yn teithio gyda nhw i'r Croesgadau, tra bod y werin datws yn cefnogi eu gŵyr drwy daflu dom a thaflegrau eraill.

Trwy gydol y Dadeni, ac hyd at y 18fed ganrif, roedd rhai menywod yn ymladd – weithiau wedi gwisgo fel dynion er mwyn cymryd rhan.

Erbyn yr 20fed ganrif, roedd menywod yn chwarae rhan bwysig mewn rhyfeloedd, ar faes y gad ac ar y Ffrynt Cartref – yn nyrsio, yn gweithio fel peirianwyr, yn gwneud gwaith swyddfa ac yn gyrru.

Ers 2016, mae menywod wedi bod yn ymladd gydag unedau arfog y fyddin.

Felly, o'r datblygiadau mewn arfau a thechnoleg, i esblygiad tactegau milwrol, i falchder cenedlaethol a'r twf ym mhresenoldeb menywod, mae rhyfela wedi newid yn llwyr dros y blynyddoedd.


© Hawlfraint BBC